**Atodiad 5: Atal gweithgareddau cyn trafod gydag eraill ynglŷn â chymryd drosodd y swyddogaeth**

| Cynllun | 2019/20 | 2020/21 ymlaen | Eglurhad | Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib |
|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill | £0 | £50,000 | Y bwriad yma yw trosglwyddo rhai asedau i'r Cyngor Cymuned / Cyngor Tref neu o bosibl i Grŵp Cymunedol. Os am gyrraedd y ffigwr byddai angen trosglwyddo rhwng 6 a 10 toiled. Byddai cyrraedd y swm yn ddibynnol ar ddarganfod cyrff fyddai'n fodlon eu cymryd a'u rhedeg. | Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion anabledd, oedran, traws-rywioldeb a rhyw ac angen asesiad pellach |
| Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill | £0 | £210,000 | Mae yna gostau sylweddol ynghlwm a rhedeg meysydd chwarae ond mewn rhai lleoliadau mae yna gymdeithasau neu gynghorau lleol yn eu rhedeg. Yn wyneb hyn rhaid gofyn bellach yn yr hinsawdd bresennol a all y Cyngor barhau i wario ar y cyfleusterau yma. Y bwriad yma yw cynnig i gymdeithasau neu gynghorau eu derbyn a'u rhedeg neu stopio eu cynnal yn gyfan gwbl ar ôl amser penodol. | Posibilrwydd y bydd effaith ar nodwedd oedran ac angen asesiad pellach |
| **Cyfanswm** | **£0** | **£260,000** | | |